## Y cwestiynau newydd am nodweddion gwarchodedig

Un newid arwyddocaol yn arolwg 2013/14 yw cyflwyno ystod o gwestiynau i fonitro gweithgarwch cydraddoldebau.

Oherwydd Deddf Cydraddoldeb 2010 mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau y trinnir yn deg bawb sy'n gyflogai gan sefydliad a ariannwn neu sy'n derbyn gwasanaeth ganddo. Rhaid inni felly fonitro ystod a math y bobl gyflogedig gennych a faint o'ch gweithgarwch a dargeda bobl o grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Mae wyth nodwedd warchodedig sef:

- Anabledd
- Rhywedd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Oed (pobl dros eu hanner cant a phobl ifainc)

Yn ogystal hoffem dargedu siaradwyr Cymraeg a chynulleidfaoedd teuluol.

Buom yn casglu data ar rai, megis anabledd a hil, ers sbel. Bydd y lleill yn newydd ichi o bosibl ond bydd yn hanfodol ichi ystyried a ddarperir eich gwasanaethau ar gyfer pob grŵp a chymuned.

Hoffem wybod am fanylion eich gweithgarwch (perfformiadau, gweithdai, arddangosfeydd, sgriniadau ffilm ac ati) a dargeda grwpiau penodol. E.e. gofynnir ichi gofnodi nifer y gweithdai a dargeda bobl anabl neu'r ffilmiau a dargeda hoywon, lesbiaid neu ddeurywolion. Wedyn gofynnwn am nifer y mynychiadau i'r gweithdai neu'r ffilmiau. Ni ddisgwyliwn ichi gwestiynu'r mynychwyr ac adrodd ar y nifer sy'n dweud eu bod yn anabl neu hoyw, eithr cofnodwch gyfanswm y mynychiadau i'r gweithgaredd a dargedai'r bobl hyn.

Yn yr adran cynhyrchu/teithio ac arddangosfeydd hoffem wybod am waith a ymwnâi â phobl â nodweddion wrth ei greu, ei gynhyrchu ei ysgrifennu neu ei berfformio gan artist o grŵp targed neu sefydliad dan arweiniad y grŵp targed. O bosibl y targedai'r cynyrchiadau/arddangosfeydd gynulleidfa benodol ond yma canolbwyntir ar nodweddion y cynhyrchwyr. Ni ddisgwyliwn ichi ofyn i artistiaid nac aelodau o'r cwmni ac adrodd am y nifer sy'n dweud eu bod yn perthyn i grwpiau penodol. Ond rydym am wybod am y cynyrchiadau dan arweiniad sefydliadau/unigolion o'r grwpiau targed hyn.

Anfonir yr adran gyflogaeth gydag arolwg ail hanner 2013/14 a chasgl wybodaeth ar nodweddion eich gweithwyr, eich ymddiriedolwyr neu aelodau eich bwrdd. Eto ni ddisgwyliwn ichi adrodd ar nodweddion yr unigolion. Mae'n bosibl ichi orfod sefydlu

systemau i goladu'r wybodaeth. Ar y tudalen drosodd mae’r pro forma a ddefnyddiwn. Gellwch ei addasu a'i ddefnyddio yn eich sefydliad. Dylai casglu'r data fod yn ddienw a gwirfoddol a gwyddom y gellwch dim ond adrodd am y wybodaeth sydd gennych.

# Monitro Cyfle Cyfartal - y Staff

I fonitro effeithiolrwydd ein polisi cyfle cyfartal, gofynnwn i bob ymgeisydd roi gwybod inni'n flynyddol am y canlynol:

**Teitl Swydd**

______________________________________________

**Rhywedd**

Beth yw'ch rhywedd?

*(Byddwch yn benodol)* ______________________________

**Oedran**

Iau nag 20 ☐ 20-29 ☐ 30-39 ☐ 40-49 ☐ 50-59 ☐ Hŷn na 60 ☐

Mae'n well gennyf beidio â dweud ☐

**Statws Perthynas**

Priod/Mewn Partneriaeth Sifil ☐ Wedi ysgaru ☐ Sengl ☐ Yn weddw ☐ Arall ☐

Mae'n well gennyf beidio â dweud ☐

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

Deurywiol ☐ Lesbiaidd/Hoyw ☐ Heterorywiol/Syth ☐

Arall ☐ *(Byddwch yn benodol)* ______________________________

Mae'n well gennyf beidio â dweud ☐

**Crefydd/Cred**

Bwdhydd ☐ Cristion ☐ Hindw ☐ Iddew ☐ Moslem ☐ Sikh ☐ Digrefydd ☐

Arall ☐ *(Byddwch yn benodol)* ______________________________

Mae'n well gennyf beidio â dweud ☐

## Hunaniaeth Genedlaethol / Tarddiad ethnig:

**Sut y disgrifiwch eich hunaniaeth genedlaethol?**

Cymreig ☐ Seisnig ☐ Albanaidd ☐ Gwyddelig o'r Gogledd ☐ Prydeinig ☐

Arall ☐ *(Byddwch yn benodol)* ____________________

**Beth yw'ch grŵp ethnig?**

**A. Gwyn**

☐ Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gwyddelig o'r Gogledd / Prydeinig

☐ Gwyddelig

☐ Teithiwr Gwyddelig neu Sipsi

☐ Unrhyw gefndir gwyn arall *(rhowch fanylion)*

____________________

**B. Cymysg / Sawl grŵp ethnig**

☐ Gwyn a du Caribïaidd

☐ Gwyn a du Affricanaidd

☐ Gwyn ac Asiaidd

☐ Unrhyw gefndir arall sy'n gymysg neu â sawl grŵp ethnig *(rhowch fanylion)*

____________________

**C. Asiaidd / Asiaidd Prydeinig**

☐ Indiaidd

☐ Pacistani

☐ Bangladeshi

☐ Tsieineaidd

☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall *(rhowch fanylion)*

____________________

**D. Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Person du Prydeinig**

☐ Affricanaidd

☐ Caribïaidd

☐ Unrhyw gefndir arall sy'n ddu / Affricanaidd / Caribïaidd *(rhowch fanylion)*

____________________

**E. Unrhyw grŵp ethnig arall**

☐ Arabaidd

☐ Unrhyw grŵp ethnig arall *(rhowch fanylion)*

## Anabledd

Diffinia Deddf Cydraddoldeb 2010 berson anabl yn berson sydd ag anabledd sef nam corfforol neu feddyliol a gaiff effaith wael sylweddol neu hir dymor ar allu'r person i ymgymryd â gweithgareddau beunyddiol arferol.

**A ydych yn berson anabl?**

☐ Nac ydw ☐ Ydw

**Os ydw, a yw'ch anabledd yn gysylltiedig â'r canlynol:**

☐ Anabledd dysgu (e.e. dyslecsia, dyspracsia)
☐ Cyflwr/salwch hirdymor (e.e. y fogfa, clefyd y siwgwr, clefyd cwympo, sglerosis ymledol)
☐ Nam ar y synhwyrau (e.e. dall, byddar, glawcoma, nam ar y clyw, nam ar y golwg)
☐ Cyflwr iechyd meddwl (e.e. anorecsia, iselder ysbryd, sgitsoffrenia)
☐ Nam corfforol
(e.e. colli coes neu fraich, defnyddio cadair olwyn, problemau trin pethau â'ch dwylo)
☐ Nam meddyliol (e.e. awtistiaeth, syndrom Asperger, anaf i'ch pen)
☐ Arall *(ymhelaethwch os dymunwch)*

**Diogelu Data:** Mae'n bosibl y prosesir gwybodaeth o'r ffurflen gais hon at ddibenion a gofrestrasom dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae gan unigolion yr hawl, wrth gyflwyno cais ysgrifenedig (a thalu ffi), i gael mynediad at ddata personol a gedwir amdanynt.

Gyda hyn cydsyniaf i Gyngor Celfyddydau Cymru brosesu'r data a gynhwysaf yn y ffurflen hon at ddibenion recriwtio a dewis.

Llofnod yr ymgeisydd ______________________ Dyddiad: ______________

YN GADARN O BLAID • POBL ANABL

POSITIVE ABOUT • DISABLED PEOPLE